**Y Grŵp Penderfynwyr Cynllunio Morol (MPDMG)**

**19 Chwefror 2020**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Yn bresennol**

Phil Coates, Rafe Osborne, Geraint Horton a Rebecca Rees (Llywodraeth Cymru), Rachel Mulholland (Cefas), Alan Groves (LIC – Cynllunio), Sharon Davies (LIC – Trwyddedu Morol), Suzanne Thomas (LIC – Twristiaeth), Gemma Christian (LIC – Fframwaith Datblygu Cenedlaethol), Mel Nicholls (MMO), Karen Perrow a Maria Alvarez (NRW), Helen Croxson (MCGA), John Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Lindsay Christian a Stephen Williams (Cyngor Casnewydd), Judith Oakley (Cyngor Abertawe), Tony Thickett (PINS), Jennifer Grubb (Dŵr Cymru), Gavin Ross (O&G Authority), Alice Collier (Ystad y Goron), Nicola Abrams (OPRED), James Stewart (Devon and Severn Inshore Fisheries and Conservation Authority), Simon Power a Ria Monkton (Mott Macdonald), Elena San Martin (ABPMer)

1. Ers mabwysiadu'r cynllun ar 12 Tachwedd, mae sawl dogfen ychwanegol wedi'i chyhoeddi i helpu i weithredu'r cynllun. Roedd yn cynnwys Datganiad Ôl-fabwysiadu Arfarniad o Gynaliadwyedd, crynodeb o'r Weledigaeth, yr Amcanion a'r Polisïau, Trosolwg o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru (CMCC), animeiddiad sydd wedi'i ddiweddaru, fframwaith Monitro ac Adrodd a Diweddariad i adroddiad Tystiolaeth Forol Cymru. Roedd y tîm Cynllunio Morol wedi llunio copïau caled o CMCC a'r Trosolwg ac yn barod i'w hanfon at randdeiliaid ar gais.

2. Yn ystod yr wythnos ddiwethaf, roedd Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at Brif Weithredwyr pob Awdurdod Lleol yng Nghymru a'r Parciau Cenedlaethol, gyda chopïau yn cael eu hanfon hefyd at aelodau priodol y grŵp hwn a Phenaethiaid Cynllunio. Roedd y llythyr yn dweud wrthynt fod y cynllun bellach yn ei le ac yn egluro eu dyletswyddau o dan y cynllun hwnnw. Ochr yn ochr â'r grŵp hwn o benderfynwyr o fewn awdurdodau cyhoeddus perthnasol, mae'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol (MPSRG) hefyd yn parhau i gwrdd i gynghori'r tîm Cynllunio Morol ar ddatblygiad y cynllun, gyda’i gyfarfod diwethaf yn cael ei gynnal ym mis Rhagfyr.

3. Roedd aelodau'r ddau grŵp wedi darparu adborth ar y Canllawiau Gweithredu drafft. Y fersiwn gyfredol o'r ddogfen oedd yr un a gafodd y grŵp hwn y llynedd ac nad oedd wedi newid rhyw lawer ac mae'n un y dylid ei hystyried yn briodol wrth wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â CMCC. Ni fwriadwyd ymgynghori'n ffurfiol ar y Canllawiau a fyddai'n cael eu cyhoeddi'n derfynol yn fuan. Roeddent ar hyn o bryd yn nwylo'r Arweinwyr Polisi i'w cymeradwyo ac roedd ambell agwedd dechnegol i'w hystyried cyn y gellid rhannu'r fersiwn derfynol gyda'r grŵp.

4. Rhoddwyd diweddariad i'r grŵp ar y dull arfaethedig i ddatblygu Ardaloedd Adnoddau Strategol (SRA) i ategu polisi diogelu'r cynllun. Roedd yr Ardaloedd hyn wedi'u cynnwys mewn mapiau yn y CMCC drafft ond nid oeddent yn rhan o'r cynllun terfynol. Fodd bynnag, gwnaed darpariaeth i'w cyflwyno yn nes ymlaen drwy Hysbysiadau Cynllunio Morol. Yn y lle cyntaf, roedd Llywodraeth Cymru yn edrych ar a oedd Achos dros Fwrw Ymlaen i nodi SRA. Roedd grwpiau arbenigol wedi'u sefydlu i'n helpu i bwyso a mesur unrhyw Achosion o'r fath ar gyfer y pedwar sector, i gychwyn; Dyframaethu, Agregau, Ffrwd Lanw ac Ynni'r Tonnau. Mae'r paneli

arbenigol yn cynnwys aelodau o'r byd diwydiant a’r byd academaidd, y Llywodraeth a chyrff anllywodraethol ac maent newydd ddarparu adborth terfynol. Byddai cyngor yna yn cael ei anfon at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig i ystyried a ddylid symud ymlaen a datblygu SRA. Byddai hyn yn cynnwys gwaith mapio, gan roi sylw i amrywiaeth o ystyriaethau y bydd angen i randdeiliaid gytuno arnynt. Byddai ymgynghoriad ar yr SRA arfaethedig drwy gyhoeddi MPN a byddai'r broses yn debygol o bara 1-2 flynedd.

5. Darparodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad ar ddarn o waith a gomisiynwyd drwy ymgynghorwyr i fapio'r holl benderfyniadau perthnasol a wneir gan Awdurdodau Cyhoeddus Perthnasol yng Nghymru, gan adeiladu ar ymarfer tebyg a wnaed gan MMO yn Lloegr. Byddai'r gwaith hwn yn hoelio sylw'n bennaf ar awdurdodau sydd â chyfrifoldebau o dan Adran 58.1 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir a byddai'n helpu'r tîm Cynllunio Morol a defnyddwyr y cynllun i ddeall hyd a lled effaith y cynllun. Roedd y prosiect yn cael ei ddarparu gan Mott Macdonald a oedd yn y broses o gyhoeddi holiaduron i’r Awdurdodau Cyhoeddus Perthnasol a byddai mwy o waith ymgysylltu i ddilyn. Y bwriad oedd y byddai'r gwaith hwn wedi dod i ben erbyn diwedd mis Mawrth 2020.

6. Cafodd y grŵp ddiweddariad gan Lywodraeth Cymru ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft a’r cysylltiadau rhwng y Fframwaith a CMCC. Roedd yr ymgynghoriad ar y Fframwaith drafft wedi dod i ben yn ddiweddar, a daeth 1,100 o ymatebion i law. Yn ystod yr ymgynghoriad, codwyd sawl cwestiwn am y sylfaen dystiolaeth ac felly lluniwyd papurau esboniadol, gan gynnwys papur ar y cysylltiadau rhwng y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r Cynllun Morol. Roedd y tîm hefyd wedi llunio ffeithlun i ddangos y berthynas rhwng CMCC a'r Fframwaith. Bwriedir cyhoeddi'r Fframwaith terfynol ym mis Medi 2020.

7. Rhoddodd NRW ddiweddariad ar ei ystyriaeth gymesur o Drwyddedau Morol yn seiliedig ar y cynllun bandio. Byddai dogfen gyfeirio ar gael ar wefan NRW yn fuan.

8. Cafwyd cyflwyniad gan ABPMer ar ei waith i ddatblygu dangosyddion drafft ar gyfer monitro'r CMCC ac adrodd arno ar ôl cyhoeddi'r fframwaith Monitro ac Adrodd yn gynharach eleni. Byddai adroddiad yn cael ei lunio erbyn diwedd mis Mawrth ac yna bydda'r dangosyddion yn cael eu mireinio ymhellach drwy is-grŵp Monitro ac Adrodd y MPDMG.

9. Cafwyd fforwm agored yn y cyfarfod pan wnaeth y sawl a oedd yn bresennol adrodd ar eu profiadau ynghylch gweithredu'r CMCC hyd yma a fyddai o bosibl yn gallu bod yn ddefnyddiol i Awdurdodau Cyhoeddus Perthnasol a Llywodraeth Cymru.

Ymholiadau at: Rebecca.Rees2@gov.wales